

YSGOL CRAIG Y DERYN

Polisi Tywydd Garw

Nod

Sicrhau fod pob plentyn ac oedolyn yn ddiogel beth bynnag fo'r tywydd. Sicrhau fod trefniadau addas yn eu lle i allogi'r ysgol i ddilyn y canllawiau isod

Canllawiau

1. Cyfrifoldeb y pennaeth yw penderfynu a ddylid cau ai peidio. Mae'r AALI yn darparu canllawiau ond ni all aelod o staff yr Awdurdod gymryd y penderfyniad terfynnol. Bydd y penderfyniad yn ddibynol ar asesiad o'r ffactorau perthnasol gan gynnwys rhagolygon y tywydd, y sefyllfa yn ardal yr ysgol, sefyllfa aelodau staff a teithio a.y.y.b.
2. Pan gymerir penderfyniad i gau ysgol, dylai'r pennaeth hysbysu'r rhieni a'r Sir gan ddefnyddio'r safle 'cau ysgolion' ar wefan y Cyngor, **Facebook yr ysgol a Dojo. Bydd y penderfyniad yn cael ei gwneud dim hwyrach na 8am.**
3. Gall ysgolion hefyd fanteisio ar y cytundeb sy'n bodoli â'r cyfryngau drwy gysylltu â Champion Radio ar 01248 673 433 neu 0845 270 2466, Radio Cymru 0870 350 0500 a Radio Wales 0800 100 110.
4. Gan fod y tywydd yn amrywio cymaint o ardal i ardal, pan fydd tywydd garw, bydd y pennaeth yn ffonio'r staff ac yn ei hysbysu o'r sefyllfa parthed y tywydd yn Llanegryn a'r cyffiniau. **Yr athrawon, nid y Pennaeth, bydd yn gwneud y penderfyniad i deithio i'r ysgol neu beidio.**
5. Os bydd gwir bryder yn dilyn sgwrs rhwng y gofawlwr, staff a'r pennaeth, bydd y pennaeth yn cysylltu gyda phenaethiaid y ddwy ysgol cynradd **agosaf (Ysgol Dyffryn Dulas ac Ysgol Penybryn)** er mwyn cytuno ar yr hyn ddylid ei wneud.
6. Byddwn yn ceisio cysylltu hefo pob rhiant (**facebook, ffon, neu dojo**) i'w hysbysu fod yr ysgol ar gau, neu bod plant i'w gyrru adref.
7. Mewn achosion ble mae darparwyr cludiant yn hysbysu'r ysgol eu bod yn awyddus i gludo rhai plant yn fuan, dylid cydsynio i'r cais. Cyfrifoldeb y darparwr yw cludo'r plant adref yn ddiogel ac wrth wneud cais o'r fath, fe fydd y darparwr yn ymateb i rybuddion tywydd neu dystiolaeth uniongyrchol fod y sefyllfa yn gwaethygu. Os nad yw darparwr yn abl i ddarparu cludiant yn y bore oherwydd tywydd garw, yna ni fydd y cludiant hynny ar gael yn y prynhawn. Dylid hysbysu unrhyw rieni sydd wedi penderfynu cludo eu plant i'r ysgol dan amgylchiadau o'r fath bod angen iddynt drefnu i gludo'r plant adref yn y prynhawn gan na fydd y cludiant arferol ar gael.
8. Os penderfynir cau ysgol, dylai'r pennaeth hysbysu'r darparwyr cludiant o'r penderfyniad. Os methir a chysylltu â'r darparwyr, dylid hysbysu'r Awdurdod drwy'r Swyddfa Ardal.
9. Ble mae penderfyniad i beidio agor ysgol, dylai staff sydd yn medru teithio i'r ysgol **HEB ROI EU HUNAIN MEWN SEFYLLFA SY'N PERYGLU EU DIOGELWCH**, wneud hynny. Cyfrifoldeb y pennaeth, ar ôl asesu'r amgylchiadau penodol, fydd cyfarwyddo'r staff yma a oes angen iddynt aros ar safle'r ysgol ai peidio.
10. **Bydd y Pennaeth y gwneud y penderfyniad os i agor yn rhannol neu yn hwyrach erbyn 8am ac yn hysbysu'r rieni ag athrawon o hyn ar wefan y Cyngor, Facebook a Dojo.**
11. **Mae'r Pennaeth a'r hawl i gau maes parcio'r ysgol os oes risg sylweddol i lechyd a Diogelwch rhieni a disgyblion. Yn yr achos yma mi fydd yr athrawon yn derbyn y disgyblion wrth giât y prif fynedfa.**

Casgliad

Yng Ngwynedd, mae cyfnodau o dywydd garw yn gymharol anghyffredin ac eithriadau yw'r adegau ble mae'n rhaid i ysgolion gau mewn amgylchiadau o'r math. Serch hynny, mae'n bwysig fod y Corff Llywodraethu yn sicrhau bod trefniadau clir yn eu lle ar gyfer yr adegau ble mae'n rhaid i rai plant gael eu hanfon adref yn fuan neu lle gorfodir ysgol gyfan i gau oherwyd dywydd garw i sicrhau diogelwch a lles yr holl blant a'r staff.

YSGOL CRAIG Y DERYN

Mabwysiadwyd (Dyddiad): 02.07.13 04.07.15 Medi 2016 -addaswyd pwynt 6 o ran - (facebook, ffon, textparents neu dojo)
Addaswyd 07.03.18

Arwyddwyd
(Cadeirydd y Llywodraethwyr)